OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2022 Rhif (Cy. )

# GALLUEDD MEDDYLIOL, CYMRU

# Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Hyfforddiant a Meini Prawf ar gyfer Cael Cymeradwyaeth fel Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy) (Cymru) 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Diwygiwyd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (p. 9) ("Deddf 2005") gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (p. 18) ("Deddf 2019") i ddarparu ar gyfer proses newydd ar gyfer awdurdodi trefniadau sy'n galluogi i ofal neu driniaeth gael ei roi neu ei rhoi i bersonau nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio i'r trefniadau, sy'n arwain at eu hamddifadu o'u rhyddid ("y trefniadau"). Yn benodol, mae Deddf 2019 yn mewnosod Atodlen newydd AA1 yn Neddf 2005, sy'n cynnwys y cynllun gweinyddol newydd ar gyfer awdurdodi'r trefniadau hynny gan gorff cyfrifol yng Nghymru ("Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid"). Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn disodli'r cynllun a nodir yn Atodlen A1 i Ddeddf 2005 ("Cynllun Diogeliadau wrth Amddifadu o Ryddid").

Cyn y gellir awdurdodi'r trefniadau, rhaid cynnal adolygiad cyn-awdurdodi i benderfynu a yw'r amodau awdurdodi wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r trefniadau neu a yw'n rhesymol i gorff cyfrifol ddod i gasgliad bod yr amodau awdurdodi wedi eu bodloni. O dan amgylchiadau penodol, rhaid i'r adolygiad cyn-awdurdodi hwn gael ei gynnal gan Broffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy ("PGMC"). Bydd PGMC hefyd, o dan amgylchiadau penodol, yn penderfynu a yw'r amodau awdurdodi wedi eu bodloni wrth adolygu'r trefniadau.

Mae paragraff 39 o Atodlen AA1 i Ddeddf 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol wneud trefniadau i bersonau gael eu cymeradwyo fel

PGMCau, a sicrhau bod digon o PGMCau ar gael ar gyfer ei ardal.

Mae’r Rheoliadau hyn yn nodi’r meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn i berson fod yn gymwys i gael cymeradwyaeth gan awdurdod lleol yng Nghymru fel PGMC. Mae’r meini prawf hyn yn cynnwys gofyniad i ymgymryd â naill ai cwrs trosi neu hyfforddiant cychwynnol ac, ar ôl cael cymeradwyaeth, i gael hyfforddiant pellach yn flynyddol er mwyn i gymeradwyaeth gan awdurdod lleol barhau. Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn nodi’r cyrff a gaiff gymeradwyo cwrs trosi, hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant pellach at ddiben bodloni elfen hyfforddiant y meini prawf cymhwystra ar gyfer cael cymeradwyaeth fel PGMC yng Nghymru.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid i berson, er mwyn bod yn gymwys i gael cymeradwyaeth, fod wedi ei gofrestru yng nghofrestr un o’r proffesiynau a grybwyllir yn y rheoliad hwnnw.

Mae rheoliad 4 yn pennu’r materion y mae rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru eu hystyried cyn cymeradwyo person fel PGMC.

Mae rheoliad 5 yn rhagnodi bod rhaid i PGMC, ym mhob blwyddyn o gymeradwyaeth, fodloni’r awdurdod lleol a gymeradwyodd y person hwnnw fel PGMC ei fod wedi ymgymryd ag o leiaf 18 awr o hyfforddiant pellach yn y flwyddyn o gymeradwyaeth ac wedi cyflawni ei swyddogaethau fel PGMC i safon briodol er mwyn i’r gymeradwyaeth honno barhau.

Mae rheoliad 6 yn darparu bod rhaid i PGMC hysbysu’r awdurdod lleol cymeradwyo, a pheidio â gweithredu fel PGMC, os nad yw wedi ei gofrestru mwyach yng nghofrestr proffesiwn a bennir yn rheoliad 3 neu os yw wedi ei atal dros dro o’r gofrestr.

Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i gymeradwyaeth person fel PGMC gael ei atal dros dro os yw’r person hwnnw wedi ei atal dros dro o’r gofrestr berthnasol ar gyfer y proffesiynau a grybwyllir yn rheoliad 3.

Mae rheoliad 8 yn darparu esemptiad rhag y gofyniad yn rheoliad 5(1)(a) i ymgymryd â 18 awr o hyfforddiant pellach ym mhob blwyddyn o gymeradwyaeth. Ni fydd yr esemptiad hwn yn gymwys ond os yw’r awdurdod lleol yn ystyried, ar ôl cael cais oddi wrth PGMC, fod rheswm da dros gytuno i’r esemptiad a pharhau â chymeradwyaeth. Ni chaiff PGMC gyflawni unrhyw swyddogaethau fel PGMC hyd nes y bydd wedi cwblhau o leiaf 18 awr o hyfforddiant pellach mewn unrhyw gyfnod a bennir gan yr awdurdod lleol.

Mae rheoliad 9 yn pennu pa bryd y bydd cymeradwyaeth fel PGMC yn dod i ben.

Mae rheoliad 10(1) yn darparu i Ofal Cymdeithasol Cymru gymeradwyo cyrsiau hyfforddi cychwynnol at ddiben rheoliad 4 ar gyfer PGMCau yng Nghymru. Mae rheoliad 10(2) yn darparu i naill ai Gofal Cymdeithasol Cymru neu Weinidogion Cymru gymeradwyo cyrsiau trosi at ddiben rheoliad 4 a fydd yn galluogi person sy'n asesydd lles pennaf o dan y Cynllun Diogeliadau wrth Amddifadu o Ryddid i ddod yn PGMC. Mae rheoliad 10(3) yn darparu i naill ai Gofal Cymdeithasol Cymru neu awdurdod lleol yng Nghymru gymeradwyo hyfforddiant pellach ar gyfer PGMCau at ddiben rheoliad 5. Caniateir i hyfforddiant neu gyrsiau a gymeradwyir gan gorff a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr gael ei ystyried neu eu hystyried hefyd at ddibenion rheoliadau 4 a 5.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2022 Rhif (Cy. )

# GALLUEDD MEDDYLIOL, CYMRU

## Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Hyfforddiant a Meini Prawf ar gyfer Cael Cymeradwyaeth fel Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)* | |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 65(1)(b) ac (c) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**1**), a pharagraff 40(1) o Atodlen AA1 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Hyfforddiant a Meini Prawf ar gyfer Cael Cymeradwyaeth fel Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy) (Cymru) 2022.

(2) Ac eithrio fel y'i pennir ym mharagraff (3), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [mewnosoder y dyddiad].

(3) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar [mewnosoder y dyddiad]—

(**1**) 2005 p. 9. Mewnosodwyd Atodlen AA1 gan adran 1(4) o Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (p. 18). *Gweler* y diffiniadau o "prescribed" ac "appropriate authority" ym mharagraff 40(5) a (6)(b), yn y drefn honno, o'r Atodlen honno.

(a) rheoliad 2 i'r graddau y mae'n gymwys i reoliadau 4(1) a (3) a 10(2);

(b) rheoliad 4(1);

(c) rheoliad 4(3);

(d) rheoliad 10(2).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "asesydd lles pennaf" ("*best interests assessor*") yw person sy'n gymwys ac a ddetholir(**1**) i gynnal asesiadau lles pennaf o dan baragraff 38 o Atodlen A1(**2**) i Ddeddf 2005 fel y mae mewn grym yn union cyn [mewnosoder y dyddiad];

ystyr "Atodlen AA1" ("*Schedule AA1*") yw Atodlen AA1 i Ddeddf 2005;

mae i "awdurdod lleol" yr ystyr a roddir i "local authority" gan baragraff 4(1) o Atodlen AA1;

ystyr "awdurdod lleol cymeradwyo" ("*approving local authority*") yw'r awdurdod lleol a gymeradwyodd berson fel PGMC o dan reoliad 4;

mae i "awdurdod lleol yng Nghymru" yr ystyr a roddir i "local authority in Wales" gan baragraff 4(1)(b) o Atodlen AA1;

mae i "awdurdod lleol yn Lloegr" yr ystyr a roddir i "local authority in England" gan baragraff 4(1)(a) o Atodlen AA1;

ystyr "cwrs addysg uwch" ("*course of higher education*") yw cwrs a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**3**);

ystyr "cwrs trosi" ("*conversion course*") yw hyfforddiant—

(a) yr ymgymerir ag ef gan asesydd lles pennaf fel dewis arall yn lle hyfforddiant cychwynnol;

(b) sydd wedi ei gymeradwyo ar gyfer aseswyr lles pennaf sy'n dymuno cael eu cymeradwyo fel PGMC gan—

(i) Gofal Cymdeithasol Cymru, neu

(ii) Gweinidogion Cymru, neu

---

(**1**) *Gweler* O.S. 2009/783 (Cy. 69) am y meini prawf cymhwystra ar gyfer aseswyr lles pennaf.

(**2**) Diddymir Atodlen A1 gan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (p. 18) (dyddiad i'w bennu. Daeth paragraff 2(c) o Atodlen 2 i rym ar 16 Mai 2019 at y diben cyfyngedig o alluogi i unrhyw bŵer i wneud rheoliadau gael ei arfer; nid yw mewn grym eto fel arall).

(**3**) 1988 p. 40.

(iii) corff a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau a wneir o dan baragraff 40(1)(c) o Atodlen AA1, ar gyfer aseswyr lles pennaf sy'n dymuno cael eu cymeradwyo fel PGMCau;

ystyr "Deddf 2005" ("*the 2005 Act*") yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005;

mae i "Gofal Cymdeithasol Cymru" ("*Social Care Wales*") yr ystyr a roddir gan adran 67 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**);

ystyr "Gorchymyn 2001" ("*the 2001 Order*") yw Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001(**2**);

ystyr "hyfforddiant cychwynnol" ("*initial training*") yw—

(a) hyfforddiant a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn unol â rheoliad 10(1), neu

(b) cwrs addysg uwch a gymeradwyir gan gorff a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau a wneir o dan baragraff 40(1)(c) o Atodlen AA1, ar gyfer personau sy'n dymuno cael eu cymeradwyo fel PGMCau;

ystyr "hyfforddiant pellach" ("*further training*") yw—

(a) hyfforddiant a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn unol â rheoliad 10(3),

(b) hyfforddiant a gymeradwyir gan awdurdod lleol yng Nghymru, neu

(c) cwrs addysg uwch a gymeradwyir gan gorff a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau a wneir o dan baragraff 40(1)(c) o Atodlen AA1, ar gyfer personau sydd wedi eu cymeradwyo fel PGMCau;

ystyr "PGMC" ("*AMCP*") yw Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy;

mae i "Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy" yr ystyr a roddir i "Approved Mental Capacity Professional" ym mharagraff 3 o Atodlen AA1.

**PGMC: meini prawf ar gyfer cael cymeradwyaeth**

**3.** Mae person yn gymwys i'w gymeradwyo fel PGMC os yw'r person hwnnw—

(a) yn nyrs lefel gyntaf(**1**) sydd wedi ei chofrestru yn Is-ran 1 o'r Rhan i'r Nyrsys o'r gofrestr a

(**1**) 2016 dccc 2.
(**2**) O.S. 2002/254.

gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(**2**),

(b) yn berson sydd wedi ei gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol—

(i) yn y rhan ar gyfer gweithiwr cymdeithasol o'r gofrestr a gedwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**3**);

(ii) yn y gofrestr a gedwir gan Waith Cymdeithasol Lloegr o dan adran 39(1) o Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017(**4**);

(iii) yn y gofrestr a gynhelir gan Gyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban o dan adran 44 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001(**5**);

(iv) yn y gofrestr a gynhelir gan Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon o dan adran 3 o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 2001(**6**),

(c) yn ymarferydd seicoleg sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 14(**7**) o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn 2001,

(d) yn therapydd lleferydd ac iaith sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 12 o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn 2001, neu

(e) yn therapydd galwedigaethol sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 6 o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn 2001.

### Cymeradwyo PGMCau: materion sydd i'w hystyried gan awdurdod lleol yng Nghymru

**4.**—(1) Ni chaiff awdurdod lleol yng Nghymru gymeradwyo person sy'n dod o fewn rheoliad 3 fel PGMC ond—

(a) os yw naill ai paragraff (2) neu (3) yn gymwys, a

(b) os yw'r awdurdod lleol yng Nghymru wedi ei fodloni—

---

(**1**) *Gweler* erthygl 1 o Orchymyn y Cyfrin Gyngor Nyrsys a Bydwragedd (Rhannau o'r Gofrestr a Chofnodion ynddi) 2004 (O.S. 2004/1765) am y diffiniad o "first level nurse".

(**2**) O.S. 2002/253.

(**3**) 2016 dccc 2.

(**4**) 2017 p. 16.

(**5**) 2001 dsa 8.

(**6**) 2001 p. 3 (G.I.).

(**7**) *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn y Cyfrin Gyngor Proffesiynau Iechyd (Rhannau o'r Gofrestr a Chofnodion ynddi) 2003 (O.S. 2003/1571) am rannau o'r gofrestr.

(i) bod gan y person hwnnw wybodaeth gymhwysol am Ddeddf 2005 a'r cod ymarfer sydd wedi ei lunio neu ei adolygu o dan adran 42 o'r Ddeddf honno, a

(ii) bod gan y person hwnnw y gallu i gadw cofnodion priodol ac i ddarparu adroddiadau clir a rhesymegol yn unol â gofynion cyfreithiol ac arferion da, a

(iii) bod gan y person hwnnw wybodaeth am arferion da mewn perthynas â threfniadau yng Nghymru.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) os yw'r person—

(i) wedi cwblhau hyfforddiant cychwynnol yn llwyddiannus,

(ii) wedi ei gymeradwyo'n flaenorol fel PGMC o dan baragraff (3), neu

(iii) wedi ei gymeradwyo'n flaenorol fel PGMC gan awdurdod lleol yn Lloegr,

(b) os nad yw'r person wedi ei atal dros dro o'r gofrestr sy'n berthnasol i broffesiwn y person hwnnw a grybwyllir yn rheoliad 3,

(c) os oes gan y person o leiaf 2 flynedd o brofiad ôl-gofrestru yn un o'r proffesiynau a grybwyllir yn rheoliad 3,

(d) os oes gan y person drefniant indemniad digonol a phriodol mewn grym sy'n darparu yswiriant mewn cysylltiad ag unrhyw atebolrwyddau a allai godi mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r person hwnnw o dan Ddeddf 2005 fel PGMC, ac

(e) os oes gan y person naill ai—

(i) tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**1**), neu

(ii) os nad yw'r diben y mae'r dystysgrif yn ofynnol ato yn un a ragnodir o dan is-adran (2) o'r adran honno, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddir o dan adran 113A o'r Ddeddf honno.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) os yw person yn asesydd lles pennaf,

(b) os yw person wedi—

(i) cwblhau cwrs trosi yn llwyddiannus cyn [mewnosoder y dyddiad], a

(ii) gwneud cais i'r awdurdod lleol cyn [mewnosoder y dyddiad],

(**1**) 1997 p. 50.

(c) os nad yw person wedi ei atal dros dro o’r gofrestr sy’n berthnasol i broffesiwn y person hwnnw a grybwyllir yn rheoliad 3,

(d) os oes gan berson drefniant indemniad digonol a phriodol mewn grym sy’n darparu yswiriant mewn cysylltiad ag unrhyw atebolrwyddau a allai godi mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau’r person hwnnw o dan Ddeddf 2005 fel PGMC, ac

(e) os oes gan berson naill ai—

(i) tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997, neu

(ii) os nad yw’r diben y mae’r dystysgrif yn ofynnol ato yn un a ragnodir o dan is-adran (2) o’r adran honno, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddir o dan adran 113A o’r Ddeddf honno.

(4) Yn y rheoliad hwn—

mae i “trefniadau” yr ystyr a roddir i “arrangements” gan baragraff 3 o Atodlen AA1;

ystyr “trefniant indemniad” (“*indemnity arrangement*”) yw—

(a) polisi yswiriant,

(b) trefniant a wneir at ddibenion indemnio’r person y mae’r trefniant yn ymwneud ag ef, neu

(c) cyfuniad o bolisi yswiriant a threfniant a wneir at ddibenion indemnio’r person y mae’r trefniant yn ymwneud ag ef.

**Amodau ar gyfer parhau i gael cymeradwyaeth**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i berson sydd wedi ei gymeradwyo fel PGMC, ym mhob blwyddyn o gymeradwyaeth felly, fodloni’r awdurdod lleol cymeradwyo ei fod—

(a) wedi cwblhau o leiaf 18 awr o hyfforddiant pellach yn y flwyddyn o gymeradwyaeth, a

(b) wedi cyflawni ei swyddogaethau fel PGMC i safon briodol.

(2) Nid yw paragraff (1)(a) yn gymwys i flwyddyn gyntaf o gymeradwyaeth person pan fo’r person hwnnw, yn y 12 mis cyn cael cymeradwyaeth fel PGMC, wedi cwblhau’n llwyddiannus—

(a) hyfforddiant cychwynnol, neu

(b) cwrs trosi.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr “blwyddyn o gymeradwyaeth” yw—

(a) y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r dyddiad y cafodd y person hwnnw ei gymeradwyo gyntaf fel PGMC, a

(b) mewn blynyddoedd olynol, y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau ar ben-blwydd y dyddiad hwnnw.

**Gofynion hysbysu**

**6.**—(1) Pan fo PGMC—

(a) yn peidio â bodloni’r meini prawf ar gyfer cael cymeradwyaeth a bennir yn rheoliad 3, neu

(b) wedi ei atal dros dro o’r gofrestr sy’n berthnasol i’w broffesiwn a bennir yn rheoliad 3,

rhaid iddo hysbysu’r awdurdod lleol cymeradwyo am y ffaith honno heb oedi.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, ni chaiff person gyflawni swyddogaethau PGMC.

**Atal dros dro o gofrestr sy’n berthnasol i broffesiwn person yn rheoliad 3**

**7.**—(1) Os yw person, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo fel PGMC, wedi ei atal dros dro o’r gofrestr sy’n berthnasol i’w broffesiwn a bennir yn rheoliad 3, rhaid i’r awdurdod lleol cymeradwyo atal y gymeradwyaeth honno dros dro am gyhyd ag y bo cofrestriad y person wedi ei atal dros dro.

(2) Pan hysbysir yr awdurdod lleol cymeradwyo bod cyfnod atal dros dro y person o’i gofrestr broffesiynol wedi dod i ben, rhaid i’r awdurdod lleol cymeradwyo ddod â chyfnod atal dros dro gymeradwyaeth y person hwnnw fel PGMC i ben.

(3) Pan ddeuir â chyfnod atal dros dro gymeradwyaeth person fel PGMC i ben o dan baragraff (2), ni chaiff y person hwnnw ailddechrau cyflawni swyddogaethau fel PGMC oni bai bod yr awdurdod lleol cymeradwyo wedi ei fodloni bod gan y person gymhwysedd priodol i gyflawni’r swyddogaethau hynny.

**Esemptiad rhag gofynion rheoliad 5(1)(a)**

**8.**—(1) Caiff person sydd wedi ei gymeradwyo fel PGMC wneud cais iddo gael ei esemptio rhag gofynion rheoliad 5(1)(a).

(2) Caiff yr awdurdod lleol cymeradwyo gytuno i’r cais a grybwyllir ym mharagraff (1) os yw’n ystyried bod rheswm da dros esemptio’r person hwnnw rhag gofynion rheoliad 5(1)(a).

(3) Pan fo’r awdurdod lleol cymeradwyo yn cytuno i gais o dan baragraff (2), ni chaiff y person y mae’r cytundeb yn ymwneud ag ef gyflawni swyddogaethau fel PGMC oni bai ei fod wedi bodloni’r awdurdod lleol cymeradwyo ei fod wedi cwblhau o leiaf 18 awr o

hyfforddiant pellach mewn unrhyw gyfnod a bennir gan yr awdurdod lleol cymeradwyo.

(4) Pan fo person yn ailddechrau cyflawni swyddogaethau fel PGMC, mae ei “blwyddyn o gymeradwyaeth” at ddibenion rheoliad 5(1) yn golygu—

(a) y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r dyddiad y mae’r person hwnnw yn ailddechrau cyflawni swyddogaethau fel PGMC, a

(b) mewn blynyddoedd olynol, y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â phen-blwydd y dyddiad hwnnw.

**Cymeradwyaeth yn dod i ben**

**9.**—(1) Rhaid i’r awdurdod lleol cymeradwyo ddod â chymeradwyaeth person fel PGMC i ben—

(a) os nad yw’r person yn bodloni mwyach y meini prawf ar gyfer cael cymeradwyaeth a bennir yn rheoliad 3,

(b) ac eithrio o dan amgylchiadau pan fo rheoliad 7 yn gymwys, os yw rheoliad 4(2) neu (3) yn peidio â bod yn gymwys mewn cysylltiad â’r person hwnnw,

(c) os nad yw wedi ei fodloni mwyach o ran y materion yn rheoliad 4(1)(b),

(d) os nad yw’r person yn cydymffurfio â gofynion rheoliad 5(1), neu

(e) os yw’r person hwnnw yn gofyn i’r awdurdod lleol cymeradwyo wneud hynny.

(2) Pan fo’r awdurdod lleol cymeradwyo yn dod â chymeradwyaeth person fel PGMC i ben o dan baragraff (1), rhaid iddo hysbysu’r person bod ei gymeradwyaeth fel PGMC wedi dod i ben a rhoi rhesymau dros ddod â’r gymeradwyaeth honno i ben.

**Corff rhagnodedig i gymeradwyo hyfforddiant a chyrsiau ar gyfer PGMCau**

**10.**—(1) Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru gymeradwyo hyfforddiant cychwynnol ar gyfer personau sy’n dymuno cael eu cymeradwyo fel PGMCau gan awdurdod lleol yng Nghymru.

(2) Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru neu Weinidogion Cymru gymeradwyo cwrs trosi ar gyfer aseswyr lles pennaf sy’n dymuno cael eu cymeradwyo fel PGMCau gan awdurdod lleol yng Nghymru.

(3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru neu awdurdod lleol yng Nghymru gymeradwyo hyfforddiant pellach ar gyfer personau sydd wedi cwblhau hyfforddiant cychwynnol neu gwrs trosi.

(4) Rhaid i hyfforddiant a gymeradwyir o dan baragraff (1) fod yn gwrs addysg uwch.

*Enw*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad